**I'W RYDDHAU AR UNWAITH**

Gardd Pawb yn Agor yn Swyddogol - Dathliad o Ysbryd a Threftadaeth Gymunedol

Roedd Dydd Gŵyl Dewi, Mawrth 1af yn garreg filltir arwyddocaol i gymuned Bae Colwyn wrth i Ardd Pawb agor ei gatiau'n swyddogol. Ni fyddai'r ardd gymunedol fywiog hon, a grëwyd i ddod â phobl ynghyd i ddathlu treftadaeth leol a hybu lles, wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth y gymuned leol.

Diolch i grant o £37,500 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, a wnaed yn bosibl gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae'r weledigaeth ar gyfer Gardd Pawb wedi dod yn realiti. Mae'r prosiect wedi'i ariannu drwy gynllun Lleoedd Lleol i Natur, a ddarperir mewn partneriaethâ Llywodraeth Cymru.

Nodwyd yr angen am fwy o goridorau gwyrdd a 'pharciau poced' megis Gardd Pawb, yng Nghynllun Lle Bae Colwyn, fel rhan o Gynllun Gweithredu Colwyn Werdd. Mae wedi cydnabod y potensial i drawsnewid tir sy'n cael ei danddefnyddio, megis y llain o dir ger maes parcio Douglas Road, i fod yn fan gwyrdd hardd a hygyrch i drigolion lleol ac ymwelwyr. Roedd y safle wedi cael ei danddefnyddio ers tro, roedd llawer o ordyfiant, ac yn fan gyda phroblemus o sbwriel a baw cŵn. Roedd yn lleoliad perffaith ar gyfer prosiect adfywio a arweinir gan y gymuned.

Mae trawsnewid y safle wedi bod yn ymdrech gymunedol wirioneddol, gyda thrigolion lleol, gwirfoddolwyr, a sefydliadau yn cydweithio i ddod â'r weledigaeth yn fyw. Mae cerrig milltir allweddol wedi cynnwys:

- Clirio'r safle wedi'i gwblhau, gan ddileu gordyfiant a malurion

- Gwelyau uchel wedi'u hadeiladu a'u llenwi ag agreg ac uwchbridd

- Cefnogaeth gymunedol enfawr yn helpu i siapio'r gofod i fod yn ardal werdd lewyrchus

Wrth siarad yn yr agoriad, dywedodd y Cynghorydd Ricki Owen, Maer y Dref:

"Mae Gardd Pawb yn fwy na gardd yn unig - mae'n fan lle gall pobl gysylltu, dysgu a thyfu gyda'i gilydd. Mae'r gefnogaeth gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Llywodraeth Cymru, wedi bod yn hanfodol i wireddu'r weledigaeth hon. Ond yr un mor bwysig yw'r gefnogaeth gymunedol anhygoel rydyn ni wedi'i chael - o wirfoddolwyr sydd wedi rhoi oriau o waith i mewn i grwpiau lleol sydd wedi cofleidio'r prosiect. Mae hon yn wir yn ardd i bawb."

Wrth ganolbwyntio ar gynaliadwyedd, bioamrywiaeth, a hanes lleol, bydd Gardd Pawb yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys gweithdai garddio, sesiynau adrodd straeon treftadaeth a digwyddiadau cymunedol. Mae'r prosiect eisoes wedi ysbrydoli pobl leol i gymryd rhan, gan feithrin ymdeimlad o falchder a pherchnogaeth yn y gofod newydd gwerthfawr hwn. Yn ystod y digwyddiad agoriadol hefyd lansiwyd menter 'Cyfeillion Gardd Pawb', gan annog cyfranogiad cymunedol parhaus. Os hoffech ragor o wybodaeth am ddod yn 'Ffrind i Ardd Pawb' e-bostiwch info@colwyn-tc.gov.uk

Mae'r ardd wedi'i dylunio i greu gofod o harddwch, cynaliadwyedd, a chyswllt - gardd gymunedol ddeniadol a reolir yn dda er budd pawb. Mae'n atgyfnerthu pwysigrwydd lleoedd lleol i fyd natur wrth gefnogi lles ac ansawdd bywyd.

Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu at wireddu Gardd Pawb. Mae'r ardd hon yn dyst i rym ysbryd cymunedol a chydweithio, ac edrychwn ymlaen at ei gwylio'n ffynnu yn y blynyddoedd i ddod.

DIWEDD

**FOR IMMEDIATE RELEASE**

Gardd Pawb Community Garden Officially Opens – A Celebration of Community Spirit and Heritage

St David's day, 1st March marked a significant milestone for the Colwyn Bay community as Gardd Pawb officially opened its gates. This vibrant community garden, created to bring people together, celebrate local heritage and promote well-being, would not have been possible without the support the local community.

Thanks to a £37,500 grant from The National Lottery Heritage Fund, made possible by National Lottery players, the vision for Gardd Pawb has become a reality. The project has been funded through the Local Places for Nature scheme, delivered in partnership with the Welsh Government.

The need for more green corridors and 'pocket parks' such as Gardd Pawb, was identified in the Colwyn Bay Place Plan, as part of the Green Colwyn Action Plan, recognising the potential to transform underused land, such as the strip of land next to Douglas Road car park, into a beautiful and accessible green space for local residents and visitors. The site had long been underused, overgrown, and a hotspot for litter and dog mess, making it the perfect location for a community-led regeneration project.

The transformation of the site has been a true community effort, with local residents, volunteers, and organisations working together to bring the vision to life. Key milestones have included:

- Site clearance completed, removing overgrowth and debris

- Raised beds constructed and filled with aggregate and topsoil

- Huge community support helping to shape the space into a thriving green area

Speaking at the opening, Cllr Ricki Owen, Town Mayor, said:

"Gardd Pawb is more than just a garden – it's a place where people can connect, learn, and grow together. The support from National Lottery players, through the Heritage Lottery Fund and Welsh Government, has been crucial in making this vision a reality. But just as important is the incredible community backing we've had – from volunteers who've put in hours of work to local groups who have embraced the project. This truly is a garden for everyone."

With a focus on sustainability, biodiversity, and local history, Gardd Pawb will host a range of activities, including gardening workshops, heritage storytelling sessions and community events. The project has already inspired local people to get involved, fostering a sense of pride and ownership in this valuable new space. The opening event also saw the launch of the 'Friends of Gardd Pawb' initiative, encouraging ongoing community involvement. If you would like further information about becoming a 'Friend of Gardd Pawb' please email info@colwyn-tc.gov.uk

The garden has been designed to create a space of beauty, sustainability, and connection—a well-managed and attractive community garden to benefit all. It reinforces the importance of local places for nature in supporting well-being and quality of life.

A heartfelt thank you to everyone who has contributed to making Gardd Pawb a reality. This garden stands as a testament to the power of community spirit and collaboration, and we look forward to watching it flourish in the years to come.

ENDS